

# Cwrs Academi Adra



Yn dilyn llwyddiant cwrs cyntaf Academi Adra fis Awst eleni, rydym yn falch o gynnig cyfle i chi gofrestru ar gyfer ein cwrs nesaf fydd yn cael ei gynnal diwedd **Ionawr 2022**.

Rydym wedi cydweithio unwaith eto gyda Grŵp Llandrillo Menai a Procure Plus ar ddylunio cwrs fydd yn eich paratoi am yrfa yn y maes adeiladwaith neu gynnal a chadw. Mae'r cwrs yn cyfuno cysiau achrededig a phrofiad gwaith gyda Adra neu un o'n contractwyr.

WYTHNOS 1	LLUN 31/01/22	MAWRTH 01/02/22	MERCHER 02/02/22	IAU 03/02/22	GWENER 04/02/22
AM	Ymwybyddiaeth lechyd a Diogelwch	Defnydd diogel o offer llaw a phwer	Codi a Chario	Llif dorri	Diogelwch Tan
PM		Ymwybyddiaeth Amgylcheddol	Ymwybyddiaeth gweithio'n ddiogel ar uchder	Ymwybyddiaeth asbestos	Ymarfer prawf CSCS
<b>WYTHNOS 2</b> 07/02/22 - 11/02/22	<b>LLEOLIAD GWAITH AR SAFLE ADRA</b>				

Bydd lle i hyd at **12 person** fanteisio ar y cyfle hwn. Bydd y cwrs **AM DDIM** a'r unig ofynion yw eich bod:

- dros 16 oed
- ddim yn gweithio o fewn y maes adeiladwaith yn barod
- yn fodlon ymrwymo i deithio i fynychu yr hyfforddiant yn Mangor a phrofiad gwaith ar ein safleoedd. Byddwn yn ceisio trefnu safle profiad gwaith mor agos i'ch cartref ag sy'n ymarferol bosib.

Roedd diddordeb mawr ar gyfer y cwrs diwethaf, felly cysylltwch â ni cyn gynted a phosib os am geisio sicrhau eich lle ar y cwrs.

Un fu'n cymryd rhan ar y cwrs diwethaf oedd Dylan Owen, 18, o Bontnewydd. Fe aeth Dylan ar brofiad gwaith ar safle adeiladwaith Adra gyda'n contractwr, G H James. Dros wythnos ei brofiad gwaith, fe greodd Dylan argraff dda ar G H James ac o ganlyniad fe gafodd gynnig gwaith cyflogedig am 45 awr yr wythnos ar eu safle yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i ti Dylan!



Chelsey Florence ar ddiwrnod hefo Academi Adra

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â Charlotte Hogan yn y Tîm Cyswllt Cymunedol ar 0300 123 8084 neu [cymunedol@adra.co.uk](mailto:cymunedol@adra.co.uk) cyn dydd Gwener, 14 o Ionawr 2021 os gwelwch yn dda. Ewch amdani i gysylltu â ni!